# Y Pwyllgor Deisebau

## P"ET(3)04-08 (p3): 6 Mawrth"

### Cyfeirnod y ddeiseb P-03-096: Uned Niwrolegol yng Ngogledd Cymru

### Geiriad y ddeiseb

'At sylw:- Edwina Hart AC Gweinidog Iechyd

Gwasanaeth Llawdriniaeth Nerfol Gogledd a Chanolbarth Cymru

Merched Y Wawr Derwen a'r Cylch

Dymunwn fel trigolion y parthau uchod ddatgan ein llwyr wrthwynebiad i'r syniad o symud bob gwasanaeth Llawdriniaeth Nerfol o Ogledd Cymru i Abertawe/Caerdydd ac apeliwn arnoch unai i ddatblygu canolfan bwrpasol yn nes i Ogledd a Chanolbarth Cymru neu ganiatáu gwariant dros y ffin yn Lloegr.'

### Cefndir

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth gychwynnol i'r ddeiseb yma ar y 21 Chwefror 2008. Cytunodd y Pwyllgor I wahodd y deisebwyr i roi cyflwyniad o flaen y Pwyllgor.

Ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth ychwanegol gan y deisebwyr mewn perthynas â'r ddeiseb hon; fodd bynnag, mae'r ddeiseb wedi casglu nifer nodedig o lofnodion.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Mawrth 2008**